


ARWEINIAD I
ADNABOD,
CANFOD
A
RHEOLI
LLYSIAU'R
DIAL

Ymosodiad Llysiâu'r Dial!!!



LLYSIAU'R DIAL

Fallopia Japonica

CYNEFIN BRODOROL

Japan a De Ddwyrain Asia.

CYNEFIN PRESENNOL

I'w gael yn eang drwy'r rhanbarth, yn enwedig ar lannau afonydd, ar ymylon ffyrdd ac ar dir gwastraff.

DISGRIFIAD O'R RHYWOGAETH

Fe'i cyflwynwyd i'r DU ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae wedi bod yn tyfu'n wyllt yng Nghymru am ychydig dros 120 o flynyddoedd. Planhigyn parhaol tal ac egniol ydyw a all dyfu i hyd at 3m o uchder. Mae ganddo goesynnau hir tebyg i fambŵo liw coch/gwyrdd a dail gwyrdd siâp tarian.



Mae system wreiddiau Llysiau'r Dial yn system eang o risomau a all ymestyn hyd at fwy na saith metr i'r ochr a hyd at ddyfnder o fwy na dau fetr.

Ni cheir unrhyw dystiolaeth bod Llysiau'r Dial yn defnyddio hadau i atgynhyrchu. Bydd pob tyfiant newydd yn y DU yn tarddu o doriadau o goesynnau neu risomau. Mae rhisom y planhigyn yn hynod atgynhyrchiol ac mae cyn lleied â 0.5g yn ddigon i gynnal twf newydd.

NODWEDDION ADNABOD

COESYNNAU

Gall fod yn 2-3m o hyd, gyda chymalau gweigion, yn wyrdd/piws/coch, gyda chygnau rheolaidd tebyg i fambŵ. Bydd coesyinnau wedi sychu'n aml yn weladwy o dwf blynnyddoedd cynt, a byddant yn arbennig o amlwg ym misoedd y gaeaf. Bydd twf newydd yn ymddangos yn gynnar yn y gwanwyn, yna ceir cyfnod o dyfu'n egniol, gan gyrraedd yr uchder llawn yn hwyr ym mis Mai.



DAIL

Mae'r dail yn wyrdd ac yn ymddangos am yn ail mewn patrwm igam ogam ar goesynnau cochion. Mae i'r rhain sylfaen wastad a blaen pigfain, a gallant fod hyd at 120mm o hyd.

BLODAU

Bydd y planhigyn yn blodeuo yn hwyr ym mis Gorffennaf/Awst a hyd at fis Hydref. Lliw gwyn hufennog yw'r blodau sy'n ffurfio clystyrau pendrwm.



RHISOMAU

Mae gan Lysiau'r Dial rwydwaith eang o risomau a gall y rhain ymestyn i ddyfnder o 3m a hyd at 7m i'r ochr. Maent yn drwchus ac yn ymddangos yn glymog neu'n gnotiog gyda chygnau rheolaidd. Os cânt eu torri mae'r canol yn oren llachar ac yn edrych fel craidd.

RHEOLAETH

Nod pob dull rheoli yw atal ymlediad ac, yn y pen draw, cael gwared â Llyisiau'r Dial.

RHEOLAETH FECANYDDOL

Er mwyn rheoli Llyisiau'r Dial yn fecanyddol, bydd angen cloddio llawer o dir er mwyn cael gwared â'r holl risomau'n gyfan gwbl. Yna rhaid cael gwared arnynt mewn modd priodol neu eu gadael i'w trin yn briodol yn y fan a'r lle.

Gall gymryd llawer o amser i dorri neu dynnu'r planhigyn ymaith, a chymryd dros ddeng mlynedd i sicrhau rheolaeth ohono. Rhaid hefyd ystyried sut i'w waredu er mwyn ei atal rhag dychwelyd.

Rhaid gwaredu'r holl wastraff o Llyisiau'r Dial, gan gynnwys y planhigyn a deunydd y gwreiddiau, fel gwastraff arbennig neu wastraff a reolir o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Rheoliadau Dyletswydd Gofal Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1991.

Ceir cyngor manwl pellach yn y Cod Ymarfer Llyisiau'r Dial a luniwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

RHEOLAETH GEMEGOL

Fel arfer, bydd hi'n cymryd o leiaf dri thymor i driniaeth â chwynladdwr fod yn effeithiol. Taenu glyffosad ar y planhigyn rhwng y cyfnod blodeuo a'r cyfnod gwywo fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau, a gallai sicrhau gostyngiad o 90% ym maint y planhigyn ar ôl taenu unwaith yn unig.

Mae'n bwysig nodi, ar ôl taenu chwynladdwr, y gall rhisom Llyisiau'r Dial barhau i fod ynghwsg, a gall unrhyw weithgarwch sy'n torri wyneb y pridd hyrwyddo twf newydd.

Os bwriedir defnyddio chwynladdwyr ar, neu wrth ymyl cwrs dwr, bydd angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

DEDDFWRIAETH

O dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd plannu neu achosi i unrhyw blanhigyn a restrir yn atodlen naw, rhan dau'r Ddeddf, dyfu'n wyllt. Mae Llyisiau'r Dial wedi'i gynnwys ar y rhestr hon.

